



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE CYLCHLYTHYR GWANWYN 2019 SPRING NEWSLETTER

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Llongyfarchiadau / Congratulations

Llongyfarchiadau mawr i'r holl gystadleuwyr yn am berfformio mor dda yn eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar.
/ Congratulations to all our pupils for competing so strongly in the recent Urdd Eisteddfodau.

Canlyniadau Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Gwauncaegurwen ar y 13^{eg} o Fawrth isod.
Results of the local Urdd Eisteddfod at Ysgol Gymraeg Gwauncaegurwen on March 13th below.

Unawd 1 a 2 *Solo* : 1^{af} - Gracie Marks 2^{ail} - Ruby May Williams 3^{ydd} - Cari Griffiths
Unawd 3 a 4 *Solo* : 3^{ydd} Kiera Jones
Llefaru Unigol 1 a 2 *Recitation* : 1^{af} - Cadi Davies 2^{ail} - Cari Griffiths
Llefaru 3 a 4 *Recitation* : 1^{af} Efa Williams
Unawd Pres B6 *Instrumental Solo* : 1^{af} William Hanson

Aeth y disgyblion enillodd y wobwr gyntaf ymlaen i'r Eisteddfodau Rhanbarth ynghyd â'r côr, y parti unsain a'r ymgom. Llongyfarchiadau mawr i'r isod / *First prize winners appeared in the Regional Eisteddfodau together with the choir, the parti unsain and dialogue. Big congratulation to the pupils below.*

Unawd 1 a 2 *Solo* : 3^{ydd} - Gracie Marks
Unawd Pres B6 *Instrumental Solo* : 3^{ydd} William Hanson
Ymgom B6 a lau *Y6 and younger Dialogue* : 2^{ail} - Seren Thair, Gwenno Wakeham, Poppy Brown a Levi Hubbard

Celf a Chrefft - Gwaith Creadigol Grŵp 3D Bl. 5 a 6
Art and Craft – Yrs 5 and 6 3D Creative Group Work
1^{af} Parti Lexie – Annabel, Lexie, Brooke, Faith a Ffion

Enillodd y Tîm Rygbi wedi Gystadleuaeth Rygbi Ysgolion Cwmtawe yn Ystradgynlais gan gynrychioli'r Cwm mewn Cystadleuaeth Genedlaethol yn y Dyfnant ddydd Gwener, Ebrill 5^{ed}. Da iawn nhw.
School Rugby Team won the recent Tawe Valley Schools Rugby tournament at Ystradgynlais and represented the valley in the National Competition in Dunvant on Friday 5th April. Big congratulations.

Elusennau ac Apêl Madagascar 2018-19 / Charities and our Madagascar Appeal 2018 - 2019

Diolch o galon i chi am eich holl gyfraniadau at yr elusennau isod.
A big thank you for your contributions towards the charities below

- Plant mewn Angen – £296 wedi'i godi – 300 'Pawen Lawen'
Children in Need - £296 raised – 300 'Pawen Lawen / High 5'
- Trwynau Coch – £175 wedi'i godi
Red Nose Day - £175 raised
- Apêl Magadascar – £408 wedi'i godi
Madagascar Appeal - £408 raised
- Diolch o galon hefyd i'r disgyblion hynny fu'n canu fel Côr yr Ysgol wedi canu yng Nhartref Gofal y Mayflower.
Many thanks as well to the pupils who sang with the School Choir at the Mayflower Residential home

Cwriclwm Cenedlaethol Newydd i Gymru / A New Curriculum for Wales

Mae lansiad Cwriclwm newydd i Gymru ar y gorwel. Mi fydd y cwriclwm newydd yn statudol yn y flwyddyn 2022 ond mi fydd drafft o'r cwriclwm newydd ar gael yn fuan. Mi fydd y cwriclwm newydd yn effeithio y ffordd y bydd eich plentyn yn cael ei (h)addysgu. O hoffech ddysgu mwy am strwythur a chynnwys y cwriclwm newydd mi fydd yr ysgol yn cynnig cyflwyniad i chi yn rhoi amlinelliad o'r newidiadau sydd ar ddod.

A new curriculum for Wales is on the horizon. The new curriculum will be statutory in school by 2022 but a draft curriculum will soon be available. The new curriculum will affect the way in which your child is educated. If you would like to find out more regarding the changes to the curriculum, the school would like to invite you to a presentation to give you an introduction and outline to these changes.

Cyflwyniad Cymraeg – Mai 2^{ail} 4.00 - 4.45yh
English Presentation – May 2nd 5.00 - 5.45pm

Staff / Staff



Dymunwn y gorau i Miss Alice Davies sydd fydd yn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth wedi'r Pasg. Estynnwn groeso i Mrs Caitlin Hogarth fydd yn dysgu blwyddyn 3 yn ystod mamolaeth Miss Davies. Diolchwn hefyd i Mrs Hogarth am ei gwaith yn dysgu blwyddyn 1 yn ystod salwch Mrs Lewis Jones.
We send our best to Miss Alice Davies, who commences her maternity leave after Easter. A big welcome to Mrs Caitlin Hogarth who will be teaching Year 3 during Miss Davies's maternity. We also thank Mrs Hogarth for her work teaching year 1 during Mrs Lewis Jones's illness.

Estynnwn groeso hefyd i Miss Lowri Morgan fydd yn dysgu Blwyddyn 1 wedi'r Pasg. Estynnwn hefyd, ein dymuniadau gorau i Mrs Lewis Jones.

Could we also warmly welcome Miss Lowri Morgan who will be teaching year 1 after Easter. We also send our best wishes to Mrs Lewis Jones.

Mae dau aelod o staff wedi'n gadael y tymor yma. Dymunwn y gorau i Miss Casey Morgan a Miss Stephanie Bevan a fu'n gynorthwyr yn yr ysgol ar eu gyrfaeodd newydd. Diolchwn iddynt am eu gwaith yn yr ysgol.

Miss Casey Morgan and Miss Stephanie Bevan, teaching assistants at the school have moved on to new careers this term. We wish them well and thank them for their work at the school.

Cofiwch / Remember

Cofiwch fod Mrs Natalie Fairburn ar gael fel swyddog cyswllt teulu. Ei rôl yw cynnig cymorth cyfeillgar i rieni a disgyblion a delio ag unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gan deuluoedd yn yr ysgol neu adref.

Remember that Mrs Natalie Fairburn's position as a family liaison officer. Her role is be to offer friendly support to parents and pupils and deal with any difficulties or fears that families experience in school or at home.



Gohirio'r Cylch Cerdded / Walkathon Postponed

Yn anffodus, oherwydd y tywydd, fe fu'n rhaid gohirio'r Cylch Cerdded yr wythnos yma. Mae wedi'i ail drefnu i brynhawn Iau, Mai'r 16^{eg}. Os allwch gadw'r taflenni noddï yn saff os gwelwch yn dda.

Unfortunately, due to the weather, we've rescheduled the Walkathon to Thursday afternoon, May 16th. If you could take great care of all sponsor sheets.

Gwasanaethau Dosbarth / Class Assemblies

Bydd ein cyfres o wasanaethau dosbarth yn parhau'r tymor nesaf. Estynnwn groeso mawr i rieni ymuno â ni i gydaddoli.

Our program of class assemblies will continue next term. As always, we warmly invite parents to join us in worship.

Dydd Mawrth / *Tuesday* 21.05.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Miss Catrin Lewis (B2)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 11.06.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Jones / Morgan a Miss Smyth (D a B1)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 18.06.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Saunders (B2)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 02.07.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Lewis Jones (B1)

Presenoldeb / Attendance

Mae presenoldeb y flwyddyn academaidd yma hyd at ddiwedd Mawrth yn 95.32%. Mae'n is na'r cyfartaledd yr amser yma'r llynedd ac yn sylweddol is na'n cyfradd ddwy flynedd yn ôl a'n targed o 96%. Erfyniwn arnoch i osgoi gwyliau yn ystod tymhorau ysgol a'n helpu fel ysgol i gynnal lefelau presenoldeb uchel ar hyd y flwyddyn.

Attendance for this academic year up until the end of March was 95.32%. This is below our rate at this time last year and significantly below our attendance levels at this time two years ago. It is well below our target of 96%. We appeal to you to try and avoid holidays during term time and support us as a school in maintaining high attendance levels throughout the year.

HMS / INSET

Mae'r diwrnodau HMS sy'n weddill ar gyfer eleni isod.

The INSET days remaining this academic year are listed below.

Dydd Llun, Mehefin 24^{ain} / *Monday, June 24th*

Dydd Gwener, Gorffennaf 19^{eg} / *Friday, July 19th*

Dydd Llun, Gorffennaf 22^{ain} / *Monday, July 22nd*

Clybiau Allgyrsiol / School Clubs

Dydd Mawrth / Tuesday

Clwb Chwaraeon Cinio 5&6 / *Year 5&6 Lunchtime Sports Club (12:00 – 12:40)*

Clwb Chwaraeon Bl. 1 a 2 / *Y1 and Y2 Games Club (3:15 – 4:00pm)*

Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

Dydd Iau / Thursday

Clwb Chwaraeon Cinio 3&4 / *Year 3&4 Lunchtime Sports Club (12:00 – 12:40)*

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15yp ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.

The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.

Clwb Codio 3&4 / *Year 3&4 Coding Club (3:15 – 4:15pm)*

Clwb Gwyddbwyll – Bron pob amser cinio / *Chess Club – most lunchtimes*

Clwb Darllen Blwyddyn 2 – Amseroedd egwyl /

Year 2 Reading Club – break times

Clybiau'r Urdd / Urdd Clubs

Ni fydd yr Urdd yn cynnal clwb chwaraeon yn yr ysgol dros y Pasg ond mae'r clybiau isod ar gael yn lled lleol.

The Urdd will not be running a sports club at the school over Easter but the clubs below are available relatively locally.

GWERSYLL GYMNASTEG PASG Easter Gymnastics Camp	GWERSYLL CHWARAEON PASG Easter Sports Holiday Camp
Ysgol Dyffryn y Glowyr [SA9 2PT] 15 Ebrill / April 10:00 - 15:00 6 - 11 oed / yrs £10 y person per person	Ysgol Cwmnedd [SA11 SAG] 16 - 18 Ebrill / April 8:30 - 15:30 6 - 11 oed / yrs £10 y diwrnod £25 am 3 diwrnod £10 per day £25 for 3 days
Dyddiad Cau Closing Date: 10/04/19 <small>** Nifer lleiafswm o gyfranogwyr yn ofynnol Minimum participants required **</small>	
COFRESTRWCH AR-LEIN Cymraeg bit.ly/PasgCNPTZ	REGISTER ONLINE English bit.ly/EasterNPTZ
COFRESTRU YN HANFODOL BOOKING IS ESSENTIAL	
✉ catrinstone@urdd.org ☎ 07976 003 357	
urdd.cymru/chwaraeon	

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* – Telyn / *Harp* (Mr Llywelyn Jones)

Dydd Iau / *Thursday* – Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Gwener / *Friday* - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams) a Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthg offerynnau am ddim. Os hoffech i'ch plentyn ddechrau gychwyn rhai o'r gwersi uchod ym mis Medi, gadewch i ni wybod. Mae ychydig o le yn parhau (yn enwedig ar gyfer gwersi llinynnol y gellir cynnig i ddisgyblion o flwyddyn 2).

Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument. If you would like your child to take up these lessons in September, please let us know. Some lessons are still available (especially for strings which we can offer this from year 2).

Y Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Mae'r ysgol yn parhau i weithio tuag at wobwr aur y Siarter Iaith. Prif nod y Siarter yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel eu bod yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru.

Rydych chi, ein rhieni yn ganolog i hyn a gofynnwn i chi ein cefnogi yn y nôd yma. Cofiwch atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion. Cadwch lygad ar flogiau'r dosbarth ar gyfer 'Thema Drafod yr Wythnos' i'w ymestyn adref. Yn bwysicach, allwch chi'n barhau i'n hysbysu os glywch eich plentyn yn siarad Cymraeg adref, yn y tŷ, wrth chwarae gydag eraill neu wrth gymdeithasu tu allan i'r ysgol fel ein bod yn gallu gwobrwyo'r disgyblion yma gyda phwyntiau Class DOJO, tystysgrif yn y gwasanaeth neu fandiau sydd wedi'u cynllunio gan y cyngor ysgol.

The school is continuing to work towards the gold award of the Language Charter. The main aim of the Charter is to inspire our children and young people to use the Welsh Language in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales. You, as parents are central to us achieving this aim. Please reinforce the benefits of bilingualism with the pupils. Keep an eye on the class blogs for the 'Discussion Topic of the Week' and continue to extend the discussion to the dinner table at home. More importantly, would you let us know if you hear your child speaking Welsh at home, in the house, when playing with others or socialising outside school so that we can reward these pupils with Class DOJO points, certificates in assembly or wristbands designed by the school council.

Hanner Can Mlyneddiant yr Ysgol / School Fifty Year Celebration

Diolch o galon i bawb gyfrannodd tuag at ein noson Hel Hanes ar nos Iau, Ebrill 11^{eg}. Fe fyddwn yn cynnal nifer o weithgareddau dros y flwyddyn sydd i ddod i ddathlu hanner can mlynedd fel ysgol benodedig Gymraeg. Os fydd y tywydd yn garedig, fe fydd llun ysgol gyfan yn cael ei dynnu ar ddydd Mercher, Gorffennaf y 3ydd. Fe fydd y llun yma yn ar gael i'w brynu gan yr holl rhieni ac cael ei arddangos fel rhan o'r dathliadau. Alla i ofyn yn garedig i bawb nodi'r dyddiad yma er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn gwisgo gwisg ysgol lawn ar gyfer diwrnod y llun.

Many thanks to everyone who contributed to the history gathering event at school on Thursday evening, April 11th. Over the next year we will be holding a number of activities to celebrate fifty years as a Welsh Medium School. If the weather is kind to us a whole school photograph will be taken on Wednesday, July 3rd. This picture will be available for purchase by all parents and will be displayed as part of the celebrations. I can kindly ask everyone to note the date to ensure that every pupil is wearing a full school uniform for the day of the photograph.

Cofion Gorau a mwynhewch y Pasg / *Best Wishes and enjoy Easter*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymhorau sydd i ddod ----->
A few dates for the terms ahead



Ysgol Gymraeg Pontardawe Dyddiadur Gwanwyn 2019 / *Spring 2019 Diary*

Pasg – Cau ar ddydd Gwener, Ebrill 12^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 29^{ain} <i>Easter – School closes on Friday, April 12th and will re-open on Monday, April 29th</i>	
Prynhawn Iau, Mai 2 ^{ail} <i>Thursday Afternoon May 2nd</i>	Noson Gwricwlaidd – 4:00 – 4:45yp Cyflwyniad Cymraeg <i>Curriculum Evening – 5:00pm – 5:45pm English Presentation</i>
Dydd Llun Mai 6 ^{ed} <i>Monday, May 6th</i>	Gwyl y Banc <i>Bank Holiday</i>
7 ^{fed} i'r 14 ^{eg} o Fai 2019 <i>7th to the 14th May 2019</i>	Profion Cenedlaethol (B2 – B6) <i>National Tests (Y2 – Y6)</i>
Prynhawn Iau, Mai 16 ^{eg} <i>Thursday Afternoon May 16th</i>	CRAF – Cylch Cerdded <i>PTFA – Walkathon</i>
Dydd Gwener Mai 17 ^{eg} <i>Friday, May 17th</i>	B4a5 - Diwrnod Sgiliau Chwaraeon Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y4&5 - Ysgol Gyfun Ystalyfera Sport Skills Day</i>
Dydd Mawrth, Mai'r 21 ^{ain} Tuesday, May 21 st	Gwasanaeth Dosbarth Miss Catrin Lewis (B2) <i>Class Assembly Miss Catrin Lewis (Y2)</i>
Dydd Iau Mai 23 ^{ain} <i>Thursday, May 23rd</i>	Mabolgampau'r Ysgol <i>School Sports Day</i>
Hanner Tymor y Sulgwyn 27^{ain} – 31^{ain} Mai / <i>Whitsun Half Term 27th – 31st May</i>	
Mercher i Wener Mehefin 5 ^{ed} i'r 7 ^{fed} 2019 <i>Wednesday to Friday June 5th to 7th 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>
Llun, i Wener Mehefin 3 ^{ydd} i'r 7 ^{fed} 2019 <i>Monday to Friday June 3th to 7th 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Dydd Mawrth, Mehefin 11 ^{eg} <i>Tuesday, June 11th</i>	Gwasanaeth Mrs Jones / Morgan a Miss Smyth (DaB1) <i>Class Assembly Mrs Jones / Morgan and Miss Smyth (R&Y1)</i>
Dydd Iau Mehefin 13 ^{eg} <i>Thursday, June 13th</i>	B6 - Diwrnod Pontio Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Transition Day</i>
Dydd Mawrth, Mehefin 18 ^{fed} <i>Tuesday, June 18th</i>	Gwasanaeth Mrs Saunders (B2) <i>Class Assembly Mrs Saunders (Y2)</i>
Dydd Llun, Mehefin 24 ^{ain} <i>Monday, June 24th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Iau Mehefin 27 ^{ain} <i>Thursday, June 27th</i>	CRAF – Ffair Haf <i>PTFA – Summer Fete</i>
Dydd Mawrth, Gorffennaf 2 ^{ail} <i>Tuesday, July 2nd</i>	Gwasanaeth Mrs Lewis Jones (B1) <i>Class Assembly Mrs Lewis Jones (Y1)</i>
Dydd Mercher, Gorffennaf 3 ^{ydd} <i>Wednesday, July 3rd</i>	Llun Ysgol Gyfan <i>Whole School Photograph</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 4 ^{ydd} <i>Thursday, July 4th</i>	Mabolgampau Ysgolion Cymraeg Gorllewin Morgannwg <i>West Glamorgan Welsh Schools Sports Day</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 5 ^{ed} <i>Friday, July 5th</i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 11 ^{eg} <i>Thursday, July 11th</i>	Cyngerdd Gadael Blwyddyn 6 (1:30yp) <i>Year 6 Leaver's Concert (1:30pm)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 12 ^{fed} <i>Friday, July 12th</i>	Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera Bro Dur <i>Language Charter Gig at YG Ystalyfera Bro Dur</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 19 ^{eg} <i>Friday, July 19th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 22 ^{ain} <i>Monday, July 22nd</i>	HMS <i>INSET</i>
Haf – Cau i ddisgyblion ar ddydd Iau, Gorffennaf 18^{fed} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mawrth, Medi'r 3^{ydd} <i>Summer – School closes for pupils on Thursday, July 18th and will re-open to pupils on Tuesday, September 3rd</i>	